



BANK OF ENGLAND

Cynllun Iaith Gymraeg Banc Lloegr - adroddiad monitro 2017

Mehefin 2018

Cynllun Iaith Gymraeg Banc Lloegr - adroddiad monitro – 2017

1 Cefndir

- 1.1 Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg ("cynllun y Banc") y Bank of England ("y Banc") gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 14 Hydref 2011. Cafodd y Cynllun ei ddiweddarw wedyngan gymryd i ystyriaeth: (a) creu'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ("y PRA"), fel is-gwmni i'r Banc, ym mis Ebrill 2013 (diweddariad a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 20 Mai 2014); a (b) ailgyflwyno ymrwymiad y Banc i'w ddau bwrpas craidd yn Ddatganiad Cenhadaeth hollgynhwysol ym mis Mawrth 2014 (diweddariad a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2015); ac (c) bod y PRA yn cael ei ddwyn o fewn endid cyfreithiol sengl y Bank of England ym mis Mawrth 2017 (diweddariad a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 18 Rhagfyr 2017).¹
- 1.2 Fel rhan o fonitro cynnydd y Banc wrth gyflwyno ei gynllun, mae'r Banc wedi paratoi'r chweched adroddiad monitro blynyddol hwn. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o fis Mawrth 2017 hyd fis Ebrill 2018. Mae hyn yn diwallu ymrwymiad i adrodd ar y cynnydd a nodir ym mharagraff 8.3 cynllun y Banc.

2 Sut y cafodd yr iaith Gymraeg ei hystyried a'i hyrwyddo

- 2.1 Dros y cyfnod adrodd, mae'r Banc wedi parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- 2.2 Yn gyson ag adran 6.10 ei gynllun, fe wnaeth y Banc wella hygyrchedd deunyddiau Cymraeg ar draws ei wefan trwy eu gwneud yn uniongyrchol hygyrch oddi ar bob tudalen wefan trwy 'ddolen gyflym' ('Cymraeg') yn nhroedyn pob tudalen. Mae hyn yn mynd â'r gynulleidfa at dudalen sengl sy'n tynnu ynghyd yr holl gynnwys Cymraeg ar wefan y Banc.² Mae cynnwys newydd wedi'i ychwanegu at y dudalen hon fel y'i manylir ym mharagraffau 2.3-2.5 isod. Ymfudodd y Banc i gynllun gwefan newydd ar 6 Rhagfyr 2017. Roedd gan yr hen dudalen we 616 o dudalennau unigryw o 1 Mawrth i 5 Rhagfyr 2017. Roedd gan y dudalen we Gymraeg newydd 313 o olygon tudalen unigryw o 6 Rhagfyr 2017 tan 30 Ebrill 2018. Felly'r cyfanswm o olygon oedd 929. Mae hyn yn cymharu â 591 ar gyfer y cyfnod adrodd blaenorol.
- 2.3 Ym mis Ebrill, lansiwyd ystod o adnoddau dosbarth diddorol, o'r enw EconoMe, i helpu i ddarparu sgiliau a gwybodaeth ddadansoddol i bobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus a fydd o fudd iddynt hwy eu hunain a'r byd o'u hamgylch. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn Gymraeg.
- 2.4 Yn gyson ag adrannau 4.5, 6.6 a 6.7, mae'r Banc yn parhau i sicrhau bod ei brif lyfryn addysg ynghylch papurau banc, 'Cymerwch gipolwg agosach', yn Gymraeg.³ Yn ogystal, cynhyrnodd y Banc fersiwn Gymraeg o ganllaw hawdd ei ddilyn yn manylu ar y nodweddion diogelwch ar y nodyn polymer £10 newydd.⁴

¹ <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/about/boe-welsh-language-scheme.pdf>

² <https://www.bankofengland.co.uk/about/gymraeg>

³ <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/banknotes/take-a-closer-look-welsh.pdf>

⁴ <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/banknotes/the-new-ten-cymraeg.pdf>

- 2.5 Mae Asiantaeth y Banc i Gymru yn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â'r Atodiad i gynllun y Banc:
- Anogir staff yn Asiantaeth Cymru i gynnwys cyfarchiad byr yn Gymraeg wrth ateb y ffonau;
 - Mae llofnodion, ymwadiadau a chynghor y Ddeddf Diogelu Data dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn cael eu cynnwys, lle mae'n briodol, yn nhroedynnau negeseuon e-bost a anfonir gan staff yr Asiantaeth; a
 - Mae cyfrif Twitter Asiantaeth Cymru yn adlewyrchu'r iaith Gymraeg

Mae Dirprwy Asiant y Banc sy'n siarad Cymraeg yn parhau i ymgymryd ag ymweliadau â chwmnïau trwy ddefnyddio'r Gymraeg lle mae hynny'n berthnasol. Yn ddiweddar, rhoddodd y Dirprwy Asiant gyflwyniad ar economi'r DU mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn Gymraeg, a mynychodd gynhadledd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) ym mis Ebrill.

- 2.6 Ni dderbyniodd y Banc unrhyw geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu geisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.
- 2.7 Mae'r Banc wedi parhau i ddefnyddio cyfieithwyr/cyfieithwyr ar y pryd cymwys yn unig wrth gyfieithu dogfennau (megis yr adroddiad monitro blynyddol hwn) i'r Gymraeg. Mae hyn yn gyson â pharagraff 7.8 y cynllun.

3 Cynllun Gweithredu

- 3.1 Ym Mai 2017, lansiodd y Banc ei gynllun strategol newydd, Vision 2020. Trwy'r cynllun, ein nod yw gwneud y Banc yn fwy hygyrch er mwyn iddo gael ei deall yn well, i sicrhau bod ein polisiau'n cael mwy o effaith. Eleni rydym wedi symud tuag at ymagwedd haenog tuag at ein cyfathrebiadau. Mae hynny'n golygu ein bod nawr yn cynhyrchu cyfathrebiadau gwahanol i weddu i gynulleidfaoedd gwahanol. Ym mis Tachwedd, dechreuon ni haenu ein Hadroddiad Chwyddiant, ac rydym yn bwriadu haenu ein Hadroddiad Sefydlogrwydd Ariannol o fis Mehefin ymlaen. Bydd y Banc yn adolygu i ba raddau mae'n cyfieithu cynnwys haenog i'r Gymraeg.
- 3.2 Mae ein gwefan dealltwriaeth y cyhoedd KnowledgeBank yn cynnig mwy na 40 o ganllawiau amlgyfrwng yn esbonio rôl y Banc a'i effaith ar fywydau pobl o ddydd i ddydd.⁵ Dros hynt 2018/19, byddwn ni'n symud y cynnwys hwn i brif wefan y Banc. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, byddwn ni'n darparu fersiwn Gymraeg o bob canllaw.

4 Data ar gwynion a chamau a gymerwyd i'w datrys

- 4.1 Ni dderbyniodd y Banc unrhyw gwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwella yn ystod y cyfnod adrodd, fel y darperir ar ei gyfer gan Paragraff 10.2 y Cynllun.

⁵ <http://edu.bankofengland.co.uk/knowledgebank/>